**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**12 IONAWR 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ar-lein ddydd Mercher, 12 Ionawr 2022

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Chris Bithell, Derek Butler, Chris Dolphin, Ian Dunbar, Veronica Gay, Gladys Healey, Patrick Heesom, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Ted Palmer, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Bernie Attridge

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Datblygu, Arweinydd Tîm – Cynllunio, Swyddogion Cynllunio, Uwch-beiriannydd – Rheoli Datblygiad Priffyrdd, Cyfreithiwr - Gwasanaethau Cyfreithiol ac Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd

Cyn dechrau'r cyfarfod mynegodd y Cadeirydd ddymuniadau gorau ar ran y Pwyllgor i Andy Roberts a Gary Nancarrow.

Croesawodd y Cadeirydd Matthew Parry-Davies, y Rheolwr Datblygu newydd.

## 44. DATGAN CYSYLLTIADAU

Dim.

## 45. SYLWADAU HWYR

Rhoes y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod ac oedd wedi eu hatodi i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint: https://committeemeetings.flintshire.gov.uk/documents/s69162/12th%20Jan%202022%20late%20obs.pdf?LLL=0

## 46. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021 yn rhai cywir, fel y cynigiwyd gan y Cynghorydd Dunbar a'i eilio gan y Cynghorydd Lloyd.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn y cofnodion fel rhai cywir a phriodol.

## 47. EITEMAU I'W GOHIRIO

Ni argymhellwyd gohirio dim un o'r eitemau.

**48.** **ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniad fel yr oedd yn ymddangos ar amserlen y Ceisiadau Cynllunio oedd wedi ei chynnwys fel atodiad.

**49.** **AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG**

Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol pan ddechreuodd y cyfarfod.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 2.29pm)

…………………………
**Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarllediadau: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**<u>PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 12 IONAWR 2022</u>**

| EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL | **PENDERFYNIAD** |
|---|---|---|---|---|
| 063496 | Cyngor Cymuned Argoed | Cais Llawn - dymchwel adeiladau presennol Ysgol Uwchradd Argoed a darparu campws newydd i'r ysgol gan gynnwys ysgol feithrin, darpariaeth gynradd ac uwchradd, cyfleusterau chwaraeon i'r ysgol gyfan a seilwaith cysylltiedig. | Siaradodd yr asiant, Natalie Quefferus, o blaid y cais.<br><br>Darllenwyd datganiad ar ran Jennifer Sharp a oedd yn gwrthwynebu'r cais. | Rhoi'r caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a bennwyd yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |